# rydym yn recriwtio

## uchafbwyntiau y swydd













# Goruchwyliwr Bwyty
# Cwt y Traeth

## Gwybodaeth allweddol

Cyflog : £27,694 - £30,024  y flwyddyn
Oriau : 37 awr yr wythnos
Contract : Parhaol

## Am y Swydd

Rydym yn chwilio am staff sy'n awyddus i ddatblygu eu gyrfa, drwy gymryd cyfrifoldeb am gadw Bwyty'r Cwt Traeth, Caffi Antur, Bwyd Tecawe a Bar Mojitos yn rhedeg yn esmwyth ac yn effeithlon.

Fel Goruchwyliwr y Bwyty, byddwch yn gyfrifol am sicrhau bod y cwsmer tn cael profiad gwych, a bod y staff yn cael eu harwain a'u cymell yn dda.

Yn y rôl hon, byddwch yn brysur yn rheoli gwahanol adrannau bwyd a diod. Bydd angen i chi fod yn gyflym ar eich traed a gallu cyfeirio a chydlynu staff ar draws yr adrannau hyn i sicrhau nad yw'r cwsmer byth yn cael ei adael yn llwglyd.

Byddwch yn rheoli rotas staff, taflenni amser a gwyliau, gan sicrhau bod digon o staff yn ystod sifftiau. Chi fydd y pwynt cyswllt cyntaf ar gyfer delio â chwynion ac ymholiadau cwsmeriaid, a byddwch yn sicrhau bod yr holl weithrediadau'n rhedeg yn esmwyth. Fel y Goruchwyliwr, byddwch yn gyfrifol am gefnogi'r tîm i ddatblygu a thyfu.

Rydym yn ymfalchïo'n fawr yn ein cyfleusterau a'r amgylchedd a gynigiwn i'n cwsmeriaid, felly byddem yn disgwyl i chi gymryd perchnogaeth lawn am hyn, gan sicrhau bod amserlenni glanhau a chynnal a chadw yn cael eu cynnal yn ôl y safon ofynnol.

***Mae'r pecyn yma ar gael yn Saesneg hefyd***



# Goruchwyliwr Bwyty
# Cwt y Traeth

## Amdanoch chi

Rydym yn chwilio am staff sy'n frwdfrydig ynglŷn â datblygu eu gyrfa gyda ni, ac sydd eisoes â dealltwriaeth o sut mae'r tîm yn gweithredu.

Byddwch yn frwdfrydig ac yn angerddol, gyda sgiliau pobl rhagorol. Bydd ein person delfrydol yn drefnus iawn ac yn gallu defnyddio ei fenter i ddatrys problemau'n gyflym ac yn effeithiol, gan aros yn dawel.

Yn ddelfrydol, bydd gennych gymhwyster Hylendid Bwyd Lefel 2, a gwybodaeth ymarferol dda am weithrediadau Bar a Bwyty.

Mae'r rôl hon yn cynnwys arwain eraill ac felly mae sgiliau arwain yn bwysig ar gyfer y swydd hon. Y sgiliau arwain rydyn ni'n chwilio amdanyn nhw yw:

- Y gallu i ysbrydoli, cymell a grymuso eraill
- Angerdd i ddarparu gwasanaethau rhagorol i gwsmeriaid
- Dibynadwyedd a gwytnwch
- Gonestrwydd, gyda'r gallu i gymryd cyfrifoldeb a gofyn am help pan fo angen

Os ydych chi'n arweinydd cyfeillgar sy'n canolbwyntio ar bobl, yn chwilio am gam i fyny yn eich gyrfa, ac yr hoffech chi weithio mewn Cwmni hynod lwyddiannus, cyflym, yna gallai hyn fod yn berffaith i chi..



# Goruchwyliwr Bwyty Cwt y Traeth

## Amdanom Ni

Trwy fuddsoddiad parhaus dros 12 mlynedd, mae Hamdden Sir Ddinbych  wedi datblygu portffolio o gyfleusterau gyda atyniadau, cyfleusterau iechyd a ffitrwydd. a chynigion bwyd a diod. Gyda 7 bwyty, bar a chaffi rhagorol ledled Sir Ddinbych, rydym yn cymharu â'r gorau yn y sector breifat, gan ddarparu cydbwysedd bywyd a gwaith heb ei ail i'n staff.

Mae tîm Hamdden Sir Ddinbych yn dîm sefydledig, angerddol sy'n cael ei yrru, gyda diwylliant o berfformiad uchel a gwasanaeth cwsmeriaid rhagorol. Mae ein llwyddiannau yn y gorffennol wedi ein harwain i ble'r ydym heddiw, gydag enw rhagorol yn ein holl gyfleusterau, a thîm gweithgar sy'n ffynnu ar y cwsmer yn cael y profiadau gorau posibl.

Rydym yn gweithio yn ôl athroniaeth 'un tîm, un cyfrif banc' - rydym i gyd yn un tîm, waeth pa safle rydych chi wedi'ch lleoli ynddo. Gyda'n gilydd rydym i gyd yn cyfrannu at wneud Hamdden Sir Ddinbych Cyf yn llwyddiannus.

- Byddwn yn sefyll yn ôl ein hegwyddorion uniondeb a gonestrwydd.
- Bydd ein staff yn ymddiried ynom bob amser i wneud yr hyn sy'n iawn fel eu cyflogwr, a'u gwneud yn falch.
- Ni fyddwn byth yn derbyn y status quo. Byddwn yn gweithio'n galetach, yn dod yn gryfach ac yn parhau i ddarparu gwasanaeth o'r ansawdd uchaf i'n cwsmeriaid.




# Goruchwyliwr Bwyty Cwt y Traeth

## Buddion Staff

Mae ein gweithlu o'r pwys mwyaf i ni ac rydym wedi ymrwymo i gynorthwyo staff i sicrhau cydbwysedd cadarnhaol rhwng bywyd a gwaith. Mae gan holl weithwyr Hamdden Sir Ddinbych Cyf hawl i amrywiaeth o fudd-daliadau, gan gynnwys:

- Aelodaeth campfa staff HSDd
- Cyfleoedd dysgu a datblygu personol a phroffesiynol
- Gwyliau blynyddol yn dechrau ar 33 diwrnod (sydd yn cynnwys gwyliau banc),

**Dyddiad cau:** 26ain Medi 2025

**Lleoliad**: Cwt y Traeth, Prestatyn

Gwnewch gais drwy ein gwefan:
https://denbighshireleisure.co.uk/careers/